



Hysbysiad Statudol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Dyma hysbysiad yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 fod Rhondda Cynon Taf, ac yntau wedi ymgynghori â phawb yr oedd rhaid iddo ymgynghori ag ef, yn cynnig adleoli'r Dosbarth Cynnal Dysgu (DCD) ar gyfer disgyblion Oedran Academaidd Blynyddoedd 3-6 sydd ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, o Ysgol Gynradd Ysgol Gynradd Pen-y-waun, Coed Glas, Pen-y-waun, Aberdâr, Rhondda Cynon Taf, CF44 9DR i Ysgol Gynradd Hirwaun, Stryd Glanant, Hirwaun, Aberdâr, CF44 9NF. Ar hyn o bryd, mae'r ysgolion yma'n cael eu cynnal gan Gyngor Rhondda Cynon Taf.

Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad ar gael yma <https://www.rctcbc.gov.uk/ymgyngghoriadysgolion>. Ynndo mae crynodeb o'r materion gafodd eu codi gan y personau a atebodd, ymatebion y sawl sy'n cyflwyno'r cynnig a barn Estyn.

Y bwriad yw gweithredu'r cynigion yma ar 1 Medi 2025.

Mae 295 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd ac mae 394 o leoedd yn yr ysgol. Yr hyn sy'n cael ei gynnig o ran nifer y lleoedd fydd ar gael wedi i'r cynllun gael ei weithredu, yw y bydd 394 ar gael o hyd.

Bydd y disgyblion yn cael eu cludo i'r ysgol yn unol â Pholisi Cludiant Disgyblion y Cyngor.

Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion yma cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad eu cyhoeddi, hynny yw erbyn 14 Mawrth 2025.

Dylai unrhyw wrthwynebiadau gael eu hanfon at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, Canolfan Menter y Cymoedd, Aberpennar CF45 4SN.

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a fydd wedi dod i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu (ac a fydd heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig), ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Llofnod:

Cyngor Davies

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Rhondda Cynon Taf

Dyddiad – 11 Chwefror 2025



Nodyn Esboniadol

1. Gwella ansawdd addysg a chodi safonau yw un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Rydyn ni o'r farn bod gwella safonau a deilliannau addysgol ar gyfer y sawl sydd fwyaf agored i niwed o blith ein disgyblion, yn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd, eu cyfle i gamu i'r byd gwaith ac ar lwybrau addysg eraill. Mae sicrhau bod ein Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn addas ar gyfer anghenion disgyblion yn bwysig o ran y cynnydd maen nhw'n ei wneud.
2. Er bod safon y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu (DCD) yn Rhondda Cynon Taf yn dda, mae gofyn i ni foderneiddio'r math yma o DCD a'i ddatblygu er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i gynnwys y disgyblion yma yn y brif ffrwd a gwella deilliannau ymhellach ar gyfer y grwpiau hynny o ddisgyblion sy'n agored i niwed.
3. Bydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun 2 DCD. Bydd hyn yn rhoi gwell darpariaeth i ddisgyblion sydd ag ASA sydd o oed y Cyfnod Cynradd. Bydd hyn yn golygu nad oes rhaid i ddisgyblion sydd ag arnyn nhw angen darpariaeth DCD drwy gydol y Cyfnod Cynradd drosglwyddo'n ddiangen. Bydd hyn yn rhoi tegwch iddyn nhw aros mewn un lleoliad hyd nes y byddan nhw'n trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd, fel sy'n digwydd gyda'u cyfoedion yn y brif ffrwd.